sôn eu bod nhw wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r gwasanaeth T19 oherwydd, "mae'n wasanaeth masnachol ac mae'r gweithredwr wedi datgan nad yw'n ymarferol iddyn nhw barhau i'w gynnig". Mae hynny'n berffaith wir wrth gwrs ac mae'n syndod imi fod Llew Jones wedi llwyddo i ddal ati gyhyd. Yn amlwg mae'n gwbl amhosibl i unrhyw un gynnal gwasanaeth ar golled. Rydw i ar ddeall bod Llew Jones wedi mynd ati i gynnig gwasanaethau eraill ond dydy Cyngor Conwy ddim yn fodlon trafod y rheiny gyda nhw. Felly, dewch inni fwrw golwg ar bwy sy'n gyfrifol yn y bôn am ddarparu ein "trafnidiaeth gyhoeddus". Mae'n ymddangos mai Trafnidiaeth Cymru sy'n gyfrifol, sef "cwmni nid er elw" a sefydlwyd yn 2017 gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynnig cymorth ac arbenigedd i Lywodraeth Cymru ynghlwm â phrosiectau trafnidiaeth yng Nghymru. Bu i Trafnidiaeth Cymru gymryd yr awenau dros y fasnachfraint rheilffordd daeth i feddiant Keolis Amey pan fu i Arriva roi'r gorau iddi.

Yna yn 2020 fe benderfynodd Llywodraeth Cymru ddiddymu eu "Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)", lle byddai cynghorau lleol wedi gallu manteisio ar rymoedd statudol i fasnachfreinio'r llwybrau bysiau yng Nghymru. Yn ôl nhw, y rheswm dros hynny oedd eu bod yn awyddus i Trafnidiaeth Cymru weithredu fel prif gorff cyflawni ar gyfer y system fysiau, a hynny yn ôl y sôn er mwyn i awdurdodau lleol fod yn "rhan berchnogion" ar Trafnidiaeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n debyg nad ydy'r awdurdodau lleol yn ymwybodol o hynny!

Os mai hynny oedd bwriad Llywodraeth Cymru, yna Trafnidiaeth Cymru a'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am golli'r gwasanaeth T19 ond dydyn nhw ddim mewn cyswllt gyda'i gilydd yn ôl y sôn. A dweud y gwir, pan gafodd hyn ei grybwyll yn y Senedd, fe wnaeth y llywodraeth gydnabod y broblem ond fe ddywedodd nhw na fuasen nhw'n trafod y mater tan y sesiwn nesaf, sydd ddim yn llawer o help wir.

Felly, erbyn hyn mae'n ymddangos mai Trafnidiaeth Cymru, sy'n eiddo i'r llywodraeth, sy'n gyfrifol am bopeth gan gynnwys y trenau. Fodd bynnag, mae gwasanaethau bysiau "ar y cyd" â chyrff eraill gan amlaf. Un enghraifft ydy'r gwasanaeth Fflecsi ar gyfer Dyffryn Conwy, a gafodd ei ddyfarnu i Alpine Travel, "ar y cyd â Trafnidiaeth Cymru a Chyngor Conwy" – mae'n od imi nad oes modd i Gyngor Conwy drefnu bod y gwasanaeth yn teithio i Ddolwyddelan hyd yma a hwythau'n bartner!

Fel y soniais i gychwyn, mae colli'r T19 yn llawer mwy cymhleth nac mae'n ymddangos ac mae'n debyg mai Trafnidiaeth Cymru sy'n gyfrifol yn y bôn. Wrth gwrs, mae Trafndiaeth Cymru yn eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru ond am ryw reswm maen nhw wedi anghofio bod Gogledd Cymru'n bodoli.

Yn olaf, mae'n bwysig inni estyn diolch i Llew Jones am ymdrechu i gynnal y gwasanaeth T19 dros y blynyddoedd diwethaf, er gwaethaf yr heriau – diolch yn fawr Llew Jones – bydd colled mawr ar eich ôl !! Mike Skerrett